OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 120 (Cy. 22)

# Y DIWYDIANT DŴR, CYMRU

## Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) (Diwygio) 2020

*Gwnaed - - - - 4 Chwefror 2020*

*Yn dod i rym drannoeth y diwrnod y'i gwnei*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 32 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010(**1**), a pharagraff 14 o Atodlen 3 iddi, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 14(5)(b) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

### Diwygio Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018

**2.** Yn erthygl 21 o Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018(**2**), hepgorer "nad yw'n fwy nag £20,000".

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

4 Chwefror 2020

(**1**) 2010 p. 29. Gweinidogion Cymru yw'r Gweinidog mewn perthynas â systemau draenio yng Nghymru yn rhinwedd paragraff 4(a) o Atodlen 3. Mae diwygiadau i Atodlen 3, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) O.S. 2018/1182 (Cy. 241).

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1182 (Cy. 241)) er mwyn darparu ar gyfer dirwy ddiderfyn ar gyfer y troseddau a nodir yn erthygl 21 o'r Gorchymyn hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.